**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George MS
Cadeirydd
Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
SeneddIechyd@senedd.cymru

Jenny Rathbone MS
Cadeirydd
Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

4 Hydref 2023

Annwyl Russell & Jenny

Rydych ddiau yn ymwybodol o'r adroddiadau diweddar yn y wasg am lawfeddygon benywaidd yn cael eu haflonyddu yn rhywiol yn y gweithle, ac wedi'ch dychryn gan y fath ymddygiad gymaint â minnau. Gofynnais i'm swyddogion geisio sicrhad oddi wrth bob cyfarwyddwr meddygol yng Nghymru o ran y trefniadau sydd ganddynt i atal achosion o ymddygiadau gwahaniaethol agored, casineb at ferched a/neu dorri diogelwch rhywiol.

Mae pob cyfarwyddwr meddygol wedi rhannu eu polisïau diogelu sy'n unol â'n gofynion cenedlaethol. Nid oes gan bob corff bolisïau diogelwch rhywiol penodol ac mae'r rhai sydd heb wedi cydnabod y byddent yn atgyfnerthu eu trefniadau drwy ddarparu staff â chanllawiau am iechyd a llesiant rhywiol ac amlinellu'r broses y maent yn gallu adrodd digwyddiadau rhywiol drwyddi.  Mae pob un wedi mynegi dymuniad i hyrwyddo ymrwymiad clir i atal niwed rhywioledig.

Cyn i'r adroddiadau ymddangos yn y wasg, roedd Gweithrediaeth GIG Cymru wedi dechrau sefydlu Grŵp Cydgysylltu Cenedlaethol ar gyfer Diogelwch Rhywiol yn GIG Cymru yn barod. Mae'r Grŵp yn defnyddio dull gorchwyl a gorffen i gwblhau ymarfer sicrhau byr, yn bennaf mewn ymateb i'r adroddiad gan y Rhwydwaith Hawliau Menywod, *When We Are At Our Most Vulnerable,* sy'n cynnwys nifer bryderus o uchel o adroddiadau o drais rhywiol mewn ysbytai.

Mae'r Grŵp wedi canolbwyntio ar weithredu i gwblhau'r swyddogaethau sicrhau buan gofynnol gan gynnwys:

- ymarfer casglu data ar draws cyrff GIG Cymru a Chanolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol
- sicrhau bod cyrff yn cwblhau hunan-asesiad ar sut y maent yn atal niwed rhywiol i gleifion a staff a sut y maent yn ymateb pan fo niwed rhywiol, gan gynnwys troseddoldeb, yn cael eu datgelu neu eu gweld.

Rydym yn ehangu’r ddadl hon ac rydym yn glir am ein disgwyliadau ar draws y GIG ehangach, sy’n cynnwys y Cylchlythyr Iechyd Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar, *Fframwaith GIG Cymru codi llais heb ofn*. Mae’r Fframwaith yn cynnwys pecynnau cymorth ymarferol, a ddatblygwyd ar y cyd gyda’n cydweithwyr yn y cyflogwyr ac undebau llafur, ac, yn y man, cyhoeddir adnoddau ar blatfform Gwella Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Rhannwn hefyd y gwaith diogelwch rhywiol y mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi’i datblygu i fynd i’r afael â’r defnydd o bŵer a dylanwad.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services